

2022 Rhif (Cy.)

2022 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A465
(Cyffordd Gorllewin Glynebwy,
Blaenau Gwent i Gylchfan
Hardwick, Sir Fynwy)
(Gwaharddiadau a Chyfyngiadau
Traffig Dros Dro) 2022

The A465 Trunk Road (Ebbw Vale
West Junction, Blaenau Gwent to
Hardwick Roundabout,
Monmouthshire) (Temporary
Traffic Prohibitions and
Restrictions) Order 2022

Gwnaed 1 Tachwedd 2022

Made 1 November 2022

Yn dod i rym 7 Tachwedd 2022

Coming into force 7 November 2022

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A465, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd honno neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A465 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyffordd Gorllewin Glynebwy, Blaenau Gwent i Gylchfan Hardwick, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Tachwedd 2022.

1. The title of this Order is the A465 Trunk Road (Ebbw Vale West Junction, Blaenau Gwent to Hardwick Roundabout, Monmouthshire) (Temporary Traffic Prohibitions and Restrictions) Order 2022 and this Order comes into force on 7 November 2022.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted Vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; Section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006, these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1);
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 7 Tachwedd 2022 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A465 Castell-nedd i'r Fenni;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1);
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A465 Neath to Abergavenny trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the intermittent period commencing at 00:01 hours on 7 November 2022 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

Prohibitions and Restrictions

3. No person may, during the works period, drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

4. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 50 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

5. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 3 to this Order.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4, 5 a 6 yn weithredol.

8. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

Atal Dros Dro

9. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2 a 3 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4, 5 a 6 yn weithredol.

Cymhwyso

10.–(1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7 ac 8 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

11. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

1 Tachwedd 2022

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

6. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 10 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 3 to this Order.

7. No person may, during the works period, use any vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the length of the trunk road specified in Schedule 3 to this Order during such times as the restrictions specified in articles 4, 5 and 6 are in operation.

8. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in Schedule 4 to this Order.

Suspension

9. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road specified in Schedules 2 and 3 are suspended during such times as the restrictions specified in article 4, 5 and 6 are in operation.

Application

10.–(1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5, 6, 7 and 8 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

Duration of this Order

11. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated the

1 November 2022

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

ATODLEN 1

GWAHARDD CERBYDAU

Y darn hwnnw o'r gefnffordd (ar hyd y lonydd aliniad presennol a lonydd aliniad newydd) o bwynt 37 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan Bryn-mawr hyd at bwynt 38 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cylchfan Glanbaiden.

Y darn hwnnw o gerbyttffordd tua'r dwyrain y gefnffordd o bwynt 38 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan Glanbaiden hyd at ffordd ymadael Llan-ffwyst.

Y darn hwnnw o gerbyttffordd tua'r gorllewin y gefnffordd o bwynt 45 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cylchfan Hardwick hyd at bwynt 38 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan Glanbaiden.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd tua'r dwyrain (ar hyd y lonydd aliniad presennol a lonydd aliniad newydd) o ffordd ymadael Cyffordd Gorllewin Glynebwy hyd at bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cylchfan Bryn-mawr.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd tua'r gorllewin (ar hyd y lonydd aliniad presennol a lonydd aliniad newydd) o bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cylchfan Bryn-mawr hyd at ffordd ymuno Cyffordd Gorllewin Glynebwy.

Cerbyttffordd gylchredol Cylchfan Glanbaiden o'i ffordd ymadael â'r gefnffordd tua'r gorllewin hyd at ei ffordd ymuno â'r gefnffordd tua'r dwyrain.

Cerbyttffordd gylchredol Cylchfan Glanbaiden o'i ffordd ymadael â'r gefnffordd tua'r dwyrain hyd at ei ffordd ymuno â'r gefnffordd tua'r gorllewin.

ATODLEN 2

TERFYN CYFLYMDER 50 MYA

Y darn hwnnw o'r gefnffordd (ar hyd y lonydd aliniad presennol a lonydd aliniad newydd) o bwynt 2,700 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Cylchfan Bryn-mawr hyd at ffordd ymuno Cyffordd Dwyrain Glynebwy.

ATODLEN 3

TERFYN CYFLYMDER 40 MYA, TERFYN CYFLYMDER 10 MYA A DIM GODDIWEDDYD

Y darn hwnnw o'r gefnffordd (ar hyd y lonydd aliniad presennol a lonydd aliniad newydd) o bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cylchfan Bryn-mawr

SCHEDULE 1

PROHIBITION OF VEHICLES

The length of the trunk road (along existing and new alignment lanes) from a point 37 metres east of the centre point of Brynmawr Roundabout to a point 38 metres west of the centre point of Glanbaiden Roundabout.

The length of the eastbound carriageway of the trunk road from a point 38 metres east of the centre point of Glanbaiden Roundabout to the Llanfoist exit slip road.

The length of the westbound carriageway of the trunk road from a point 45 metres west of the centre point of Hardwick Roundabout to a point 38 metres east of the centre point of Glanbaiden Roundabout.

The length of the eastbound trunk road (along existing and new alignment lanes) from the Ebbw Vale West Junction off slip road to a point 37 metres north of the centre point of the Brynmawr Roundabout.

The length of the westbound trunk road (along existing and new alignment lanes) from a point 37 metres north of the centre point of the Brynmawr Roundabout to the Ebbw Vale West Junction on slip road.

The circulatory carriageway of Glanbaiden Roundabout from its trunk road westbound exit arm to its trunk road eastbound entry arm.

The circulatory carriageway of Glanbaiden Roundabout from its trunk road eastbound exit arm to its trunk road westbound entry arm.

SCHEDULE 2

50 MPH SPEED LIMIT

The length of the trunk road (along existing and new alignment lanes) from a point 2,700 metres north west of the centre point of the Brynmawr Roundabout to the Ebbw Vale East Junction on slip road.

SCHEDULE 3

40 MPH SPEED LIMIT, 10 MPH SPEED LIMIT AND NO OVERTAKING

The length of the trunk road (along existing and new alignment lanes) from a point 37 metres north of the centre point of the Brynmawr Roundabout to a point 1,200 metres north west of the centre point of Brynmawr Roundabout.

hyd at bwynt 1,200 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Cylchfan Bryn-mawr.

ATODLEN 4

GWAHARDD BEICWYR

Y darn hwnnw o'r gefnffordd (ar hyd y lonydd aliniad presennol a lonydd aliniad newydd) o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd Gorllewin Glynebwy ar y lonydd tua'r dwyrain a'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd Gorllewin Glynebwy ar y lonydd tua'r gorllewin hyd at bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cylchfan Bryn-mawr.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd (ar hyd y lonydd aliniad presennol a lonydd aliniad newydd) o bwynt 37 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan Bryn-mawr hyd at y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd Llan-ffwyst ar y lonydd tua'r dwyrain a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd Llan-ffwyst ar gyfer y lonydd tua'r gorllewin.

SCHEDULE 4

PROHIBITION OF CYCLISTS

The length of the trunk road (along existing and new alignment lanes) from the eastbound off slip at Ebbw Vale West Junction on the eastern lanes and the westbound on slip road at Ebbw Vale West Junction on the western lanes to a point 37 metres north of the centre point of the Brynmawr Roundabout.

The length of the trunk road (along existing and new alignment lanes) from a point 37 metres east of the centre point of the Brynmawr Roundabout to the eastbound off slip road at Llanfoist Junction on the eastbound lanes and the westbound off slip road at Llanfoist Junction for the westbound lanes.